Gwers: Beth sydd mewn Enw?

Amcanion Dysgu:
Rhoi trefn ar wybodaeth yn gronolegol.
Archwilio ystyr geiriau yng nghyd-destun Enwau.
Defnyddio data sylfaenol ac eilaidd i gwblhau tasg.
Defnyddio ymchwil yn effeithiol i gefnogi ateb/dadl.

I ddechrau: Defnyddiwch y daflen 'Famous Williams'. Rhowch hwy mewn trefn gronolegol. Wyddoch chi mai John neu William oedd enw hanner y dynion mewn pentref erbyn y 14eg ganrif? Trafodwch pam bod gennym enwau cyntaf a chyfenwau.	**Disgyblion** Edrych ar daflen gyda lluniau ac enwau pobl enwog o'r enw William mewn hanes. Penderfynu ym mha drefn y cawsant eu geni.	**Athro** Helpu'r disgyblion i ddeall pwy yw'r bobl enwog o'r enw William a beth a wnaethant. Dangos y drefn gywir.
Prif dasg: Edrychwch i weld os oes tueddiadau neu resymau dros ddewis enwau cyntaf. Gan ddefnyddio'r taflenni adnoddau, archwiliwch y tueddiadau ar gyfer yr enw Harry a chwblhewch ymarfer tebyg ar gyfer y 5 enw mwyaf poblogaidd. Defnyddiwch gysylltiadau'r we gyferbyn i'ch helpu.	**Disgyblion** Trafod a chwblhau gweithgareddau ar y taflenni adnoddau. Defnyddio ffynonellau eraill i gefnogi eu dadleuon	**Athro** Cynorthwyo'r disgyblion i gwblhau'r tasgau. Gallogi'r disgyblion i ddefnyddio ffynonellau eilaidd. Hwyluso trafodaethau dosbarth.
Sesiwn lawn: Archwiliwch yr ystyr y tu ôl i'ch enw cyntaf chi. Defnyddiwch www.behindthename.com (neu wefan arall). Pa mor boblogaidd yw eich enw? Edrychwch ar y 100 o enwau mwyaf poblogaidd ar gyfer bechgyn a merched dros y 5 mlynedd diwethaf. http://www.statistics.gov.uk/specials/babiesnames_girls.asp http://www.statistics.gov.uk/specials/babiesnames_boys.asp	**Disgyblion** Archwilio eu henwau gan ddefnyddio nifer o adnoddau ar y we. Ysgrifennu paragraff am eu canfyddiadau.	**Athro** Esbonio bod enwau yn aml yn golygu rhywbeth. Helpu'r disgyblion i archwilio eu henwau.

Canlyniadau:
Bydd pob disgybl yn: Rhoi cynnig ar y gweithgareddau, archwilio eu henwau eu hunain.
Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion yn: Rhoi rhesymau dros eu hatebion ac yn cwblhau'r gweithgareddau.
Bydd rhai disgyblion yn: Cwblhau gweithgareddau yn gywir, rhoi syniadau ac atebion da, rhoi cynnig ar dasgau ymestyn.

Adnoddau:
Taflen Famous Williams, Taflenni Adnoddau, Cyswllt â'r Rhyngrwyd, (Argraffu o'r we os nad yw'r cyswllt ar gael)

Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth;
Trafodaeth i'r dosbarth cyfan, Gwaith grŵp

Geiriau allweddol: Enw Cyntaf, Cyfenw, Cronolegol, Tarddiad Geiriau.	**Cysylltiadau Strategaeth CA3/CC/Cysylltiadau Traws-Gwricwlaidd** Saesneg NLS: (Geirfa) Ystyr geiriau mewn cyd-destun. Hanes: Dealltwriaeth gronolegol 1) a 5b) a 7a). Mathemateg: MA4 1e) a g) AIBCh: 1b) (gellid ei ddefnyddio fel gweithgaredd i gyflwyno 'Pwy ydw i?')

Gwybodaeth flaenorol:
Rhywfaint o ddealltwriaeth o drefn gronolegol pobl drwy hanes.

Asesiad o'r Dysgu:
Trafodaeth ddosbarth, Canlyniad gweithgareddau rhoi trefn, Deall ystyr eu henwau eu hunain.

Gweithgaredd Ymestyn:
Gwnewch waith ymchwil ar eich cyfenw. Beth yw ei darddiad? Beth yw ei ystyr? Pa mor gyffredin ydyw?

Syniadau Gwaith Cartref:
Ailadroddwch y gweithgaredd llawn ar gyfer aelodau'r teulu. Gofynnwch i'ch rhieni pam gwnaethant roi eich enw i chi.

Nodiadau:
William y Concwerwr (1027-1087), William Wallace (1270-1305), William Tell (tua 1308), William Shakespeare (1564-1616), William Herschel (1738-1822), William Pitt yr Ieuaf (1759-1806), William Wordsworth (1770-1850), William Morris (1834-1896) William Clinton (1946-presennol).
http://www.bbc.co.uk/wales/southeast/sites/familyhistory/pages/surnames_geoffriggs.shtml

http://www.bbc.co.uk/education/beyond/factsheets/surnames/surnames_origins.shtml

http://www.pro.gov.uk/virtualmuseum/maingalleries/famous/default.htm

http://www.wandsworth.gov.uk/Home/CommunityServices/RegisterOffice/RegisterBirth/regwhatsinaname.htm

http://www.babyworld.co.uk/information/pregnancy/namecalling.asp

Enwau Cyntaf:
The definitive guide to popular names in England and Wales.
ISBN 0116916338
Ganwyd y Tywysog Harri ar 15/09/1984.
Cyhoeddwyd y llyfr Harry Potter cyntaf ym 1997.
Pobl enwog eraill o'r enw Harry: Harry Secombe, Harry Truman, Dirty Harry, Harry Houdini, Harry Ramsden, Harry Enfield, Harry Connick Jr, Harry Kewell, Harry Redknapp, Harry Carpenter, Harry Belafonte.

Eich nodiadau/cwestiynau:

Nodiadau ar y wers/gwerthusiad

national STATISTICS

Crëwyd yr adnodd hwn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn www.statistics.gov.uk